# ROBERTS, ROBERT ELLIS VAUGHAN (1888 - 1962), prifathro ysgol a naturiaethwr

**Enw:** Robert Ellis Vaughan Roberts
**Dyddiad geni:** 1888
**Dyddiad marw:** 1962
**Priod:** Edith Mary Roberts (née Davies)
**Rhiant:** William Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** prifathro ysgol a naturiaethwr
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Natur ac Amaethyddiaeth
**Awdur:** Melfyn Richard Williams

Ganwyd ym Mryn Melyn, Rhyduchaf, ger y Bala, Meirionnydd, 24 Mawrth 1888, yn fab i William Roberts. Addysgwyd ef yn ysgol T -Tan-Domen a graddiodd yn y gwyddorau yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, yn 1909. Cychwynnodd ar ei yrfa fel athro yn Ninbych, Clocaenog, a Rhosddu, Wrecsam, ac apwyntiwyd ef yn 1920 yn brifathro ysgol gynradd Llanarmon-yn-Iâl, flwyddyn ar ôl i Richard Morgan y naturiaethwr, ymddeol.

Yn 1942 fe'i penodwyd yn brifathro cyntaf ysgol dechnegol elfennol amaethyddol Llysfasi a bu yn y swydd hyd 1948 pan ddychwelodd i fod yn brifathro ysgol elfennol Llanarmon-yn-Iâl, hyd ei ymddeoliad yn 1953.

Bu'n gyfrannwr cyson i nifer o gylchgronau Cymraeg a Saesneg drwy gydol ei oes, yn cynnwys *Y Cymro*, *Yr Herald Cymraeg*, *Meirionnydd*, *Yr Athro*, *Llafar*, *Y Genhinen*, *Y Gymdogaeth*, *Countryside*, *Country Quest* a'r *Crynhoad*. Cyhoeddodd ddrama yn ymwneud â bywyd Cymreig ddoe a heddiw sef ' *Stalwm*, ac hefyd *Llyfr Blodau* a gyhoeddwyd yn 1952.

Yr oedd yn aelod o Orsedd y Beirdd er 1923 ac adnabyddid ef o dan yr enw ' Vaughan Tegid '. Bu hefyd yn aelod o Gymdeithas Canu Gwerin Cymru a chasglodd nifer o ganeuon, gan gyhoeddi rhai yn *Chwe chân werin Gymreig* (1938).

Bu'n gyd-olygydd a chyfrannwr i'r *Chester and North Wales Natural Society* o 1947 hyd 1954. Enillodd Fathodyn Coffa Kinsley yn 1934 ' For material contributions to several branches of natural science '.

Ef, ynghyd â'r Athro R. Alun Roberts, oedd arbenigwyr cyntaf *Seiat Byd Natur*, y rhaglen radio a gychwynnodd yn Ionawr 1951. Cafodd ergyd drom yn neng mlynedd olaf ei oes pan gollodd ei olwg, ond er hynny, parhaodd yn aelod o *Seiat Byd Natur* hyd ei farw yn Wrecsam, 3 Mawrth 1962. Fe'i claddwyd ym mynwent gyhoeddus Wrecsam.

Priododd Edith Mary Davies, Wrecsam, yn 1921 a bu iddynt fab.

## Awdur

**Melfyn Richard Williams**

## Ffynonellau


Melfyn R. Williams, *Gwyddonwyr Sir Ddinbych* (1973) (1973), 19-20

gwybodaeth gan ei fab


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804755


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu